Dorchester Avenue a Winchester Avenue – Ffyrdd ar Gau

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae cais wedi'i dderbyn gan yr Aelodau Ward Lleol ar gyfer Pen-y-lan i ymchwilio i'w pryderon ynghylch diogelwch ar y ffordd yn Dorchester Avenue. Cwblhawyd ymchwiliad Trafnidiaeth a oedd yn cynnwys asesiad llawn o'r lleoliad yn cynnwys data gwrthdrawiadau, llif traffig ac arolygon cyflymder.

Yn ôl yr arolygon a gwblhawyd, mae cerbydau'n defnyddio Dorchester Avenue a Winchester Avenue fel llwybr amgen er mwyn osgoi'r gyffordd sy'n rheoli traffig gyda signalau yn Colchester Avenue a Pen-y-Lan Road. Mae hyn yn mynd yn groes i'r cyfyngiad "Mynediad yn Unig" ar gyfer y ffordd fynediad leol hon.

Cytunwyd mai cyflwyno bolardiau yn Dorchester Avenue a Winchester Avenue wrth eu cyffyrdd â Pen-y-Lan Road fyddai'r dewis mwyaf addas. Byddai gofyniad i gyflwyno llinellau melyn dwbl sy'n dynodi "Dim Aros ar Unrhyw Adeg" er mwyn creu pen troi i gerbydau symud yn ddiogel ac yn gyfleus.

Caniateir mynediad i feicwyr trwy'r amser pan fydd y ffyrdd ar gau.

Gwybodaeth ychwnaegol ynghylch mesurau rheoli traffig

Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Cyfyngiadau yw'r rhain, a osodir ar y Briffordd, sy'n cyfarwyddo, rheoli neu wahardd symudiadau defnyddwyr y ffordd. Er enghraifft, cyfyngiadau cyflymder 20 mya. Dim Mynediad. Dim Troi i'r Dde. Traffig Unffordd. Dim Aros. Rhaid i'r rheoliadau hyn fynd trwy broses gyfreithiol hir. Os cânt eu cymeradwyo, gosodir arwyddion neu linellau ar y safle a bydd yr Heddlu neu eu Wardeniaid Traffig yn eu gorfodi.

Bolard. Postyn a wneir o amryw ddeunyddiau ac a ddefnyddir i rwystro cerbydau rhag gyrru ar y llwybr troed neu ymyl y ffordd.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun a ddangosir isod.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae pecyn ymgynghori llawn ar gael yn www.cardiff.gov.uk/transport-projects. Fel arall, e-bostiwch TransportProjects@cardiff.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3289 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn 29/12/2016.

The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

A full consultation pack is available at www.cardiff.gov.uk/transport-projects. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3289 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by 29/12/2016.